Ffederasiwn
Ffermydd
Dinesig
Gerddi
Cymunedol

Ffurflen gais am Aelodaeth

www.farmgarden.org.uk

Y prif fanteision o fod yn aelod o'r Ffederasiwn

Gwasanaethau Cymorth

- Gall y staff datblygu a'r gronfa o Weithwyr Maes profiadol sy'n gweithio ledled y DU ddarparu help a chyngor ymarferol ar ystod o bynciau a materion.
- Cymorth a gwybodaeth mewn argyfwng (ee. adeg achosion o glefyd, megis ffliw adar)
- Sesiwn rhad ac am ddim ar gyngor ariannol gyda'n Rheolwr Ariannol (os oes lle ar gael)
- Mynediad at gynlluniau a rhwydweithiau cefnogi arbenigol yn cynnwys y Rhwydwaith Ffermydd Ysgol, Tyfu gydag Ysgolion a'r Cynllun Adfywio Rhandiroedd
- Cyfleoedd rhwydweithio a hyfforddi, yn cynnwys digwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio lleol drwy gydol y flwyddyn. Yr aelodau sy'n dewis y themâu. Mae'r digwyddiadau hyn ar gael am ddim neu am bris gostyngol i aelodau.

Cyhoeddiadau a gohebiaeth

- Byddwch yn cael copïau rhad ac am ddim o'n cylchlythyr chwarterol i aelodau Growing Places, yn ogystal â chopïau o'n Cylchlythyr Haf a'n Hadolygiad Blynyddol.
- Gall aelodau wneud cais am gopi caled o'n holl gyhoeddiadau yn rhad ac am ddim
- Mae copïau ychwanegol o gyhoeddiadau megis mapiau a deunyddiau sy'n hyrwyddo ffermio a garddio cymunedol hefyd ar gael.
- Gallwn ddosbarthu eich hysbysebion am swyddi gwag, digwyddiadau ayb. yn rhad ac am ddim gyda'n gohebiaeth drwy'r post.

Bwrsarïau Teithio

- Mae bwrsarïau teithio ar gael gwerth hyd at £150 i dalu costau ymweliadau i grwpiau cymunedol eraill neu i'n digwyddiadau rhwydweithio/ hyfforddi. Mae hyn yn amodol ar y galw. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch ag aelod staff lleol y Ffederasiwn.

Gwasanaethau Ar-lein

- Mynediad at ein Canolfan Adnoddau gynhwysfawr ar-lein, sydd ar gael i ddefnyddwyr cofrestredig ein gwefan yn unig
- Mae copïau o'n cyhoeddiadau a'n cylchlythyrau ar gael i'w llwytho oddi ar y we
- Defnyddio siop ar-lein y Ffederasiwn i farchnata eitemau sydd ar werth
- Hysbysebu a hyrwyddo eich digwyddiadau ar ein gwefan
- Rydym wedi neilltuo tudalennau ar gyfer gwledydd a rhanbarthau penodol ac maent yn cynnwys gwybodaeth leol ddefnyddiol
- Cylchlythyrau a bwletinau rheolaidd drwy e-bost i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gyllid, hyfforddiant ac adnoddau gwybodaeth.

Manteision eraill

- Gwybodaeth am y cynllun yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a luniwyd yn benodol ar gyfer rhandiroedd a gerddi cymunedol (nid yw ymuno â'r Ffederasiwn yn golygu y bydd gennych warchodaeth yswiriant yn awtomatig)
- Mynediad at ein harddangosfeydd, cyflwyniadau digidol, lluniau a fideos
- Mynediad at grantiau a bwrsarïau'r Ffederasiwn (os ydynt ar gael), cymhorthdal ar gyfer astudiaethau dichonoldeb a disgownt ar wasanaethau ymgynghori.
- Mae aelodau sy'n derbyn ymwelwyr i'w cynlluniau'n cael eu blaenoriaethu ac yn cael sylw yn ein cyhoeddiadau map poblogaidd, sy'n tynnu sylw at ffermydd dinesig a gerddi cymunedol mewn rhanbarthau ledled y wlad ac sydd ar gael am ddim
- Gall y Ffederasiwn gynnig cyfleoedd i chi godi eich proffil os ydych: yn cynnal digwyddiadau a drefnir gennym; yn cyhoeddi erthygl yn y cylchgrawn Growing Places neu'n cymryd rhan mewn taith Seeing is Believing ar gyfer gwneuthurwyr polisi
- Gall aelodau enwebu unigolion i Fwrdd y Ffederasiwn a chyflwyno cynigion i'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Pam ddylech chi ymuno?

Byddwch yn dod yn rhan o fudiad ehangach o feysydd glas a reolir gan y gymuned sy'n elwa o gymorth, cynrychiolaeth a gwaith hyrwyddo'r Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol.

Mae ein staff datblygu rhanbarthol yn darparu cymorth a chyngor ymarferol yn uniongyrchol i'n haelodau. Maent hefyd yn trefnu digwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio lleol, gan roi cyfle i chi gyfnewid syniadau gydag ymarferwyr eraill a dysgu sgiliau defnyddiol.

Gallwch gael cyhoeddiadau ac adnoddau gwybodaeth yn ymwneud ag amrediad eang o feysydd yn cynnwys cyllid, materion cyfreithiol ac arfer da. Hefyd, gall y Ffederasiwn roi gwybodaeth a chymorth i aelodau yn ystod achosion o glefydau, megis e-coli.

Mae gennym ystod eang o wasanaethau ar gael ar-lein hefyd, megis yr adnoddau gwybodaeth sydd ar gael i'w llwytho oddi ar y wefan neu gyfle i hysbysebu swyddi gwag a digwyddiadau eich gr□p neu'ch prosiect am ddim.

Yn olaf, rydym yn gweithio o'ch plaid chi i gadw dyheadau'r mudiad ar yr agenda gwleidyddol, lobïo'n effeithiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, hyrwyddo arfer da, gwella rhwydweithiau a chreu cyfleoedd hyfforddi a datblygu.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y manteision i aelodau.

Ffôn 0117 923 1800
admin@farmgarden.org.uk

Categorïau aelodaeth

Fyddech chi gystal â darllen drwy ein categorïau aelodaeth i ddewis yr un sydd fwyaf addas i'ch sefydliad chi, yna llenwi'r ffurflen sydd dros y dudalen gan ddefnyddio'r COD FFI perthnasol.

Gardd Fferm

Yn agored i unrhyw sefydliad sy'n rhedeg (neu'n bwriadu rhedeg) fferm ddinesig, gardd gymunedol neu brosiect tebyg sydd â phwyllgor rheoli wedi'i ethol o'r gymuned leol.

Ar ôl i'ch prosiect fod yn aelod o FCFCG fel gardd fferm am flwyddyn, gallai fod yn gymwys i gael ei ethol i fod yn Aelod â Phleidlais, sy'n rhoi'r hawl i chi fod â phwerau gwneud penderfyniadau yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol.

Dewiswch y cod ffi priodol ar gyfer eich trosiant blynyddol a rhowch gylch am hwn ar y ffurflen gais dros y dudalen:

Incwm blynyddol	Cod Ffi	Ffi Flynyddol
£0-£10,000	AM DDIM	Am ddim (blwyddyn gyntaf yn unig)
£0-£50,000	A	£30
£50,001-£100,000	B	£60
£100,001-£500,000	C	£100
£500,001-£1,000,000	D	£150

Aelod cyswllt

Bwriedir y categori hwn ar gyfer sefydliadau (heblaw am ysgolion) sy'n rhedeg (neu'n bwriadu rhedeg) fferm ddinesig, gardd gymunedol neu brosiect tebyg ond nad oes iddo bwyllgor rheoli etholedig. Dylai Ymddiriedolaethau ymuno dan y categori hwn. Mae'r ffi aelodaeth ar gyfer y categori hwn yn £75 y flwyddyn. Rhowch gylch am god ffi AFFIL ar y ffurflen gais.

Cefnogwyr

I unigolion sydd eisiau cefnogi gwaith FCFCG. Mae cefnogwyr yn cael ***Growing Places***, ein cylchlythyr chwarterol i aelodau, copi o'n hadolygiad blynyddol a'n cylchlythyr cyhoeddus. Mae'r categori hwn yn costio £20 y flwyddyn. Rhowch gylch am god ffi SUP ar y ffurflen gais.

Ffurflen Gais

Ysgrifennwch mewn llythrennau bras. Gwnewch sieciau'n daladwy i FCFCG.

At ddefnydd y swyddfa'n unig:			
Copi at DW		Pecyn wedi'i anfon	
Diweddaru db		Tabl aelodaeth	
Rhanbarth		Login	

Enw'r Prosiect							
Cyfeiriad y safle (os yn berthnasol)	Cod post:						
Teleffon							
Ffacs							
e-bost							
Gwefan							
Enw cyswllt							
Enw cyswllt							
Cyfeiriad post (os yn wahanol i'r cyfeiriad safle a roddir uchod)	Cod post:						
Cod Ffi (rhowch gylch)	AM DDIM	A	B	C	D	AFF	SUP
Ffi a amgaeir (£ swm)							
Disgrifiad byr o'ch prosiect							
Ticiwch y disgrifiad sy'n berthnasol i ddatblygiad eich prosiect hyd yma	Yn y camau cynllunio o hyd	Wedi canfod safle ac wedi dod i gytundeb â'r tirfeddiannwr				Wedi dechrau ar y safle	
Ticiwch y disgrifiad gorau o'r math o brosiect rydych yn rhan ohono neu'n ei gynllunio **Rydym yn diffinio fferm fel prosiect sy'n cadw neu'n bwriadu cadw da byw o unrhyw fath*	Gardd gymunedol	Prosiect mewn rhandir	Gardd ysgol			Perllan gymunedol	
	Fferm a reolir gan y gymuned*	Fferm ofal*	Fferm ysgol*			Math arall o fferm*	
	Math arall o brosiect (e.e. Amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned)						
Rheswm am ymuno â FCFCG							
Llofnod			Dyddiad:				

Fyddech chi gystal â dychwelyd y ffurflen wedi'i chwblhau ynghyd
â'r ffi aelodaeth i: FCFCG, The GreenHouse, Hereford St, Bristol, BS3 4NA

Ffôn. 0117 923 1800 admin@farmgarden.org.uk

Mae'r ffurflen gais hon ar gael mewn Braille, ysgrifen fras neu fel tâp sain.

Ffederasiwn Ffermydd Dinesig Gerddi Cymunedol